

Pwrpas

1. Bydd yr eitem sefydlog hon ar newid hinsawdd yng Nghyngor Partneriaeth Mawrth yn bennaf yn cynnwys cyflwyniad gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Fodd bynnag, er gwybodaeth, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth. Mae'n cynnwys manylion adolygiad ffordd o weithio'r Panel Strategaeth Hinsawdd wrth i ganolbwynt y gwaith newid o ymchwiliad / blaenoriaeth i gyflawni / gweithredu.

Cefndir

2. Darparodd adroddiad i gyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth ar **24 Tachwedd** ddiweddariad ar waith y Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adferiad CLILC.
3. Mae'r Panel wedi cael tri chyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth. Roedd y cyfarfod ym mis Tachwedd yn canolbwyntio ar **ffynonellau cyllid** er mwyn cyflwyno ymrwymadau Sero Net y cyngor (wedi'i atodi yn Atodiad 1). Clywodd y Panel gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru am gyfleoedd Buddsoddi i Arbed o ran trosi fflyd y Cyngor i gerbydau trydan, yn arbennig os cânt eu pweru o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol. Darparodd WRAP enghreifftiau o gostau gydol oes a manteision o drwsio ac ail-ddefnyddio. Amlinellodd Llywodraeth Cymru'r camau mae'n cymryd i gefnogi gwaith y panel, gan gynnwys dyrannu £20miliwn y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf i gefnogi buddsoddiad mewn gwres carbon isel yn adeiladau'r cyngor. Nododd Grant Thornton, un o bum ymgynghorwr ar fframwaith TaRSP, gyfleoedd i dynnu mewn cyllid sector preifat.
4. Roedd y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn edrych ar **fesur cynnydd** yn erbyn yr ymrwymadau. Derbyniodd ragolwg o ganlyniadau adrodd ar allyriadau eleni a chadarnhaodd fanylion o adolygiad mwy ansoddol o gynnydd cynghorau ar ddatgarboneiddio ac addasu. Yn ogystal, trafododd y Panel y ffordd orau o symud ymlaen gyda **phecyn gwaith caffael** wedi'i adrodd i, a chytuno gan Fwrdd Gweithredu CLILC ar 16 Rhagfyr.
5. Hefyd cytunodd y cyfarfod ym mis Rhagfyr fod yr amser yn iawn i adolygu'r ffordd mae'r Panel yn gweithredu. Yn ystod y cam '*cyflymu*' o fap llwybr Sector Cyhoeddus (2021-22) roedd angen gwaith i ganfod a blaenoriaethu camau gweithredu gyda'r effaith fwyaf posibl, a fydd yn galluogi cyflymu gwaith mewn modd cydlynol ar draws cynghorau. Mae'r cam hwn wedi datblygu nifer o gamau i gefnogi cynghorau, gan gynnwys y canlynol:

- **pecyn gwaith caffael** a fydd yn galluogi goblygiadau carbon o ran gwasanaethau a nwyddau a brynir i'w hystyried yn ofalus, gan yrru newid drwy'r cadwyni cyflenwi.
 - mewnbwn i waith Ystadau Cymru ar **adeiladau**, i adolygu cynlluniau datgarboneiddio o ran asedau eiddo'r sector cyhoeddus, gyda gwaith peilot yng Ngogledd Cymru a £20miliwn y flwyddyn wedi'i ddyrannu.
 - gweithio gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a WGES ar gynigion cludiant, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer **pontio cydlynol fflyd** a fflyd lwyd i gerbydau trydan.
 - datblygu **pecyn datgarboneiddio ar y tir** a ellir ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau'r cyngor sy'n effeithio ar ddefnydd tir, fel bod ystyriaeth o gyfleoedd datgarboneiddio.
 - **gwaith arweinyddiaeth** gydag Aelodau a swyddogion i adeiladu consensws a gwella'r gallu i symud ymlaen gyda'r uchod i gyd.
 - codi proffil gwaith **addasu a chadernid**, gydag astudiaeth wedi'i chomisiynu i ganfod meysydd lle mae cynghorau yn ceisio, ac yn elwa o gefnogaeth.
6. Wrth i ni symud i'r cam '*Cryn Bellter ar Hyd y Daith*' o'r map llwybr (2022-2026), mae'n hynod o bwysig bod y mesurau uchod yn cael eu rhoi ar waith. Gofynnwyd i aelodau'r Panel roi safbwyntiau ar y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gweithrediad effeithiol.
7. Nid oedd cyfarfod ym mis Ionawr er mwyn rhoi amser i safbwyntiau gael eu cyflwyno, casglu a'u hystyried. Lluniwyd adroddiad ar yr adolygiad, gan dynnu ar yr awgrymiadau a dderbyniwyd. Cafodd yr adroddiad hwnnw ei ystyried yng nghyfarfod y Panel ym mis Chwefror.

Prif bwyntiau yn codi o'r Adolygiad

8. Roedd consensws da o ran y pwyntiau a godwyd gan aelodau'r Panel. Cafodd y rhain eu dosbarthu i ddau brif bennawd - 'darpariaeth' a 'gweithredol'. Yn dilyn trafodaeth, **cytunwyd ar gynigion ar gyfer darpariaeth effeithiol** fel a ganlyn:
- Y Panel i gymryd rôl fwy cyfarwyddol, gan gytuno ar y trefniadau angenrheidiol i yrru darpariaeth, a goruchwyllo cynnydd wrth barhau i fod yn atebol i'r Cyngor Partneriaeth.
 - Y Panel i gytuno ar flaenoriaethau a bod yn glir ar yr allbynnau/canlyniadau a ragwelir, gan sicrhau fod ffurf yn dilyn gweithrediad. Felly, mae angen cydbwysedd priodol o ran:
 - i. sicrhau fod cynghorau yn gweithio tuag at/cyflawni net sero erbyn 2030

- ii. cymell gwaith ar addasu a chadernid
 - iii. datblygu dolenni gyda phartneriaid eraill y sector cyhoeddus i rannu dysgeidiaeth a chanfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio
 - iv. cyflawniad 'tiriogaethol' ehangach o ran net sero erbyn 2050
- Sefydlu grwpiau tasg a gorffen, wedi'i arwain gan aelodau'r Panel: un ar gyfer pob un o'r pedwar pennawd map llwybr, gyda'r gwaith o reoli prosiect/rhaglen y gwaith uchod, i sicrhau y caiff ei roi ar waith.
 - Is-grwpiau gwaith eraill i'w cytuno yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall y rhain ganolbwyntio ar gyfathrebu; datblygu metrigau i amcangyfrif ac yna mesur effaith yr ymyraethau; addasu; cyllid.
 - Mae angen cydweithio a chydlynu'n well gyda grwpiau presennol ymhob rhanbarth gan weithio ar net sero ac ar addasu, gan eu defnyddio fel 'llygaid a chlustiau' ac i arwain ar ddarpariaeth lle bo'n briodol, gan gynnwys diweddariadau ar waith gydag undebau llafur ac eraill ar lefel lleol/rhanbarthol er mwyn bodloni'r ymrwymiad i 'drosglwyddiad cyfiawn'
 - Cysylltiadau cryfach i'w datblygu rhwng y Panel a'r Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd, sydd â chynrychiolwyr sy'n swyddogion o bob cyngor.
 - Dosbarthiadau meistr i barhau i gael eu defnyddio i rannu arferion da
 - Casglu gwybodaeth ar wefan CLILC fel man cychwynol ar gyfer cynghorau sy'n chwilio am gyngor a gwybodaeth (gan gynnwys canlyniadau o holl waith a gomisiynir).

9. O ran y **cynigion ar faterion gweithredol**, cytunwyd ar y prif bwyntiau canlynol:

- Papurau ar gyfer cyfarfodydd y Panel i gael eu rhannu yn gynharach, gan alluogi ymholiadau a sicrhau sylwadau ac adborth gwybodus yn y cyfarfodydd.
- Adroddiadau i ddilyn ffurf gyson
- Adroddiadau briffio rheolaidd gan is-grwpiau/grwpiau tasg a gorffen i'w derbyn fel eitemau sefydlog
- Llai o gyflwyniadau, gyda siaradwyr allanol yn cael eu gwahodd pan fo'n hanfodol yn unig
- Cyfarfodydd y Panel i gael eu cadw'n fyrrach neu'n llai aml.
- Cyfatebiaeth i gael ei rannu'n eang ar ôl y cyfarfodydd, gan nodi datblygiadau sylweddol, penderfyniadau, camau nesaf cytunedig ac ati.

10. Bydd hyn yn cynrychioli newid sylweddol mewn pwyslais, gyda mwy o ganolbwynt ar olrhain camau mewn cynghorau unigol, gan geisio sicrhau fod gwaith yn cael ei gydlynu cyn belled â phosibl. Yn y modd hwn, dylem ddechrau gweld rhaglenni o weithgareddau strategol gyda nodau clir a ellir eu monitro dros amser er mwyn asesu cynnydd.

Argymhellion

11. Argymhellir bod y Cyngor Partneriaeth yn:

- nodi datblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth
- cefnogi'r newid dull yn dilyn adolygiad, fel yr amlinellir ym mharagraffau 8 a 9.

ATODIAD 1 – cynllun gwaith y Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer yn erbyn ymrwymadau Llywodraeth Leol

Net Zero Wales LG Commitments

	TaRSP Support
<p>Buildings</p> <ul style="list-style-type: none"> - Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate. <p>Ystadau Cymru as strategic lead;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023. - All public buildings supplied with low carbon heat by 2030. - All new public sector buildings are built to net zero standard. 	<ul style="list-style-type: none"> • Decarbonisation Masterclass on Buildings held on February 16th. Sharing best practice on Re:fit programme and retro fitting older buildings. • Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly.
<p>Procurement</p> <ul style="list-style-type: none"> - Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022. - Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts. - Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023. 	<ul style="list-style-type: none"> • Commissioned support on procurement and scope 3 emissions • Masterclass on Procurement in planning for later this year. • Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly
<p>Mobility & Transport</p> <ul style="list-style-type: none"> - Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030. - Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES) - Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport. 	<ul style="list-style-type: none"> • Commissioned targeted support on low carbon infrastructure and transport that focuses on skills, making the business case, planning and grey fleet. • Masterclass on Transport held 19th January, currently planning a masterclass on Active Travel with case studies from Nottingham City Council • Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly
<p>Land Use</p> <ul style="list-style-type: none"> - Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management. - Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders. - Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain. 	<ul style="list-style-type: none"> • Commissioned support on land based decarbonisation that includes guidance to embed LBD across relevant service areas and establishing a streamlined tool for councils • Masterclass on Land Use held in March • Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly